CYNGOR TRE FRENHINOL CAERNARFON

COFNODON CYNGOR 5 MAWRTH 2013

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W T Owen

Cynghorywr
W R Owen, I C Thomas, H Edwards, A W Bohana, A Kirk, M W Thomas,
G Thomas, W L Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, D Jones, E Hughes, T Thomas

Siaradwyr Gwadd : Colin Jones a Barry Davies parthed gorchymyn parcio Doc Fictoria

Clerc yn egluro mai yma er mwyn i'r swyddogion gael gwell dealltwrieaeth o pam ein bod ni fel Cyngor wedi gwrthod y prosiect . Ni fyddan yn ail wneud penderfyniad ond mi wnaiff y swyddogion egluro pam bod y cais wedi dod ger bron ac yna cewch gyfle i egluro pan eich bod chi wedi gwrthod , fydd hyn yn help i'r swyddogion wrth iddynt symud ymlaen a'r fenter

Colin Jones

Yn parchu bod Cyngor wedi gwneud penderfyniad ond yn falch o fedru roi eglurhad o safbwynt Cyngor Gwynedd . Ar hyn o bryd mae yna gamddefnydd o'r sefyllfa ac mi fuasai'r cynllun yn rhoi gwell rheolaeth ar y sefyllfa . Does na ddim trefn penodl ar gyfer yr ased,ac yn derbyn cwynion gan y clwb cyfagos.

Derbyniodd Colin Jones eglurhad bod y penderfyniad wedi ei wneud oherwydd bod yna brinder o lefydd parcio am ddim yn y dref a bod y Cyngor Tref yn awyddus iddo aros am ddim ac ar gael "cyntaf i'r felin"

Gofynwyd yn garedig os oes modd derbyn eglurad llawnach yn y dyfodol , neu i brif swyddog gysylltu a'r clerc os oes na reswm penodol bod gwybodaeth i gyd ddim yn y dogfennau priodol

Diolchodd Y Dirprwy Faer i Mr Colin Jones am ei amser

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng H Roberts

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Noson Gwyl Dewi yn y clwb peldroed – diolch i'r Dirprwy Faer am fynychu

A beirniadu cystadleuaeth ffenestri Gwyl Dewi

3. **Datgan Buddiant Personol**

W T Owen, H Edwards, I C Thomas – siaradwr gwadd
W T Owen – cynllunio a trwyddedu
W R Owen – rhybudd o gynnig Cyng A Hopcyn
I C Thomas – trwyddedu

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cofnodion wedi eu cywiro o Gyngor 5 Tachwedd 2013
ii. Cyngor, 19 Chwefror 2013

Penderfynwyd
i. derbyn fel rhai cywir
ii. derbyn fel rhai cywir

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

Penderfynwyd

Penderfynwyd anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

(aeth Cyng W T Owen allan ar gyfer bob eitem a Cyng I C Thomas a Cyng H Edwards allan ar gyfer eitem trwyddedu)
Cadeirwyd gan Cyng W R Owen

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn au talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Maerolaeth 2013 – 2014

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, a'r eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. Roy Owen

Penderfynwyd

Cefnogi gweledigaeth Cyng Roy Owen am y flwyddyn

10.Maerolaeth 2013– 2014

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2013 – 2014

Penderfynwyd

Ethol Cyng W L Davies yn dirprwy faer etholedig

11.Bwletin

i) 2013 Digidol
ii) Gwahoddiad i ddigwyddiad Brecwast Busnes
iii) Diweddariad Arian Grŵp Ewrop 2014 – 2020
iv) Arolwg – Dyfodol Arian Ewrop yng Ngogledd Cymru
v) £30 miliwn i'r gronfa twf economaidd – y gweinidog yn lansio'r ail ran
vi) Gwnewch wahaniaeth wrth arall gyfeirio
vii) Cais am dystiolaeth er mwyn rhoi hwb i'r sector cydweithredol a chydfuddiannol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12.Llythyr diolch Noddfa

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13.Digwyddiadau ar Y Maes

Cynlluniau posib angen ymateb

Penderfynwyd

Cefnogi'r holl opsiynnau gan ffafrio opsiwn 3 ond angen sicrhau bod meysydd anabl ddim yn cael eu colli tu allan i sbar, a bod ceir /faniau bobl farchnad ddim yn aros efo'r sondinnau pam mae na digwyddiad ymlaen

14.Adroddiad Cyng. E. Hughes o gyfarfod Plas Pawb

Penderfynwyd

Derbyn a diolch

15.Adroddiad Cyng. E. Hughes o gyfarfod Bil Datblygu Cynaliadwy

Penderfynwyd

Derbyn a diolch

16.Rhybudd o Cyng. A. Hopcyn

Penderfynwyd

Cefnogi'r cynnig

(Cyng W R Owen ymatal)

17.Bwletin Academi Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

18. Adroddiad y Clerc o gyfarfod Glannau Caernarfon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19.Cwestiynau

Gai longyfarch y clerc ar ei phenodiad fel cadeirydd clercod prydain fawr ?

Cewch !!

Gorffenodd y cyfarfod am 7.25

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....